

## CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun**, 12fed Mawrth, 2018, yn Festri Capel Rhydbach, Botwnnog, o 7.30 p.m. hyd 8.30 p.m.

Presennol: Y Cynghorydd Carys E. Williams (Cadeiryddes)  
 Y Cynghorydd Glenys Williams (Is-Gadeiryddes)  
 Y Cynghorwyr Elin Hughes, Gwenan Griffith, Dylan Parry Jones, Ifor Owen, Glyn Roberts, Siôn Williams  
 Y Cynghorydd Gareth Williams (Y Cynghorydd Sir)  
 Ymddiheuriad: Y Cynghorwyr Carys H. Evans, Michael Strain

### 99. **CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

**Croesawodd** y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod ac hefyd Y Cynghorydd Glyn Roberts yn dilyn ei lawdriniaeth ddiweddar.  
 Llongyfarchodd y Clarc ar ddod yn Nain unwaith eto.

### 100 **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad buddiant personol.

### 101. **CADARNHAU COFNODION**

**Cyflwynwyd**, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor 12fed Chwefror, 2018.

#### **MATERION YN CODI**

##### **(1) Eitem 90 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (1) – Archwilio'r Cyfrifon**

**Adroddodd** y Clarc fod y wefan bron yn barod a diolchodd i'r Cynghorydd Glyn Roberts am y lluniau ar gyfer y wefan. Eglurodd y byddai Cradur Bach (Mr. Arfon Parry) yn trefnu gweithdy ar y cyd mewn man canolog i Gyngor Botwnnog a Chynghorau cyfagos yn y dyfodol agos.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad.

##### **(2) Eitem 90 Cadarnhau Cofnodion – cymal (2) Eitem 82 Materion Ffyrdd**

###### **(c) Camfeydd**

**Cyflwynwyd** ymateb Mr. Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd fel a ganlyn:

*"Llwybr Argrraig – camfa wedi torri.* Er bod y gamfa bren yn rhydd mae modd fynd o gwmpas heb lawer o drafferth. Y broblem fwyaf efo'r llwybr yma ydyw'r dull ffermio yn y caeau a hefyd defnydd weiren drydan. 'Rwyf yn sgwrsio hyn efo fy rheolwr er mwyn i ni gael ymateb i fath ddefnydd. Felly dwi ddim yn meddwl bod yna frys i drwsio'r gamfa yma oherwydd cyflwr y llwybr yn gyffredinol. Petai

rhywun yn brifo wrth ddefnyddio'r gamfa, bydd unrhyw achos am iawndal yn disgyn ar berchennog y tir o dan adran 146 Deddf Priffyrdd 1980.

*Llwybr Pengopa rhif 9 Botwnnog* – mae i weld fod adwy newydd wedi ei greu trwy'r clawdd gwreiddiol roedd yn cario'r Llwybr yn y man yma. Dwi yn ceisio darganfod os mae awdurdod wedi ei roi am hyn ac os oes, dwi yn credu mai cyfrifoldeb y perchennog tir ydyw beth bynnag.”

Addawodd y Swyddog ddod yn ôl at y Cyngor yn dilyn ymchwilio i'r sefylla parthed Llwybr rhif 9 ac hefyd pan fyddai wedi derbyn ymateb ynglyn a'r gwifrau trydan.

**Penderfynwyd** derbyn yr adroddiad.

### **(ch) Biniau Halen**

**Cyflwynwyd** atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor i gais y Cyngor i symud bin rhif 26 o gyffordd Ty Rynn, Lon Comins, Rhiw i lawr i Coch Moel, Bryncroes. Dyma'r atebiad:

“Mae'n ymddangos nad oes llawer o ddefnydd yn cael ei wneud o'r halen yn bin 26 ar hyn o bryd ac yn synhwyrol i'w ail leoli.

Rwyf yn ymwybodol nad ydych wedi ymrwymo i gytundeb Cyngor Gwynedd i lewni biniau halen yn eich cymuned ond yn ôl eich llythyr rydych am ei drafod mis Medi. Er gwybodaeth, bwriad Gwasanaeth Priffyrdd yw casglu'r biniau halen o'r cymunedau sydd heb ymrwyo i'r gytundeb yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, 2018/19, ond nid oes amserlen benodol wedi'i drefnu hyd yma.

Am y tro, oherwydd blaenoriaethau ac adnoddau prin mae'n rhaid gwrthod eich cais i symud bin rhif 26.”

Yn wyneb hyn **pendderfynwyd** anfon llythyr at y Peiriannydd yn gofyn am i'r biniau beidio cael eu symud hyd byddai'r Cyngor wedi cael cyfle i ail ystyried eu sefyllfa ac hefyd gwneud ymholiadau beth yw'r telerau o gael cadw'r biniau.

### **(3) Eitem 90 – Cadarnhau Cofnodion – cymal (3) Eitem 85 Adroddiad yr Is-bwyllgor Cyfrifon**

**Cyflwynwyd** cadarnhad gan Ms. Luned Fôn Jones, Rheolwr Archwilio yng Nghyngor Gwynedd, i delerau'r archwiliad mewnol gydag un newid o dan gymal 7 'Cydnabyddiaeth' sef “...mae cytundeb rhwng yr Archwilydd Mewnol o'r Cyngor y bydd y **ffi oddeutu £125 (heb) TAW** yn ystod pob blwyddyn ariannol .....” (Y newid mewn ffont du).

**Penderfynwyd** derbyn y gytundeb a'r cymal sydd wedi ei newid.

### **(4) Eitem 93 – Materion Ffyrdd**

**Cyflwynwyd** atebiad Peiriannydd Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd, i gais y Cyngor am gael adfer y man pasio rhwng Penbont Cellar a phont Cellar, Botwnnog. Dywedodd y Swyddog fod archwiliad wedi ei wneud o'r man pasio ac anfonwyd lluniau i gadarnhau hynny, ac nad oedd “yn fan pasio penodol ond yn hytrach ymyl las. Mae'r math yma o ddifrod i ymylon ffyrdd yn digwydd mwy rheolaidd oherwydd tywydd gwlyb a cherbydau amaethyddol anferthol sy'n teithio ffyrdd cefn gwlad. Oherwydd blaenoriaethau eraill sydd wedi'i rhaglennu i'r gweithlu hyd ddiwedd mis Mawrth ni fedrwn roi sylw er adfer yr ymyl ar hyd o bryd.”

**Penderfynwyd** derbyn y wybodaeth.

## **(5) AROLWG O'R TREFNIADAU ETHOLIADOL AR GYFER SIR GWYNEDD – CYNIGION DRAFFT**

**Yn unol â'r addewid** 'roedd y Clarc wedi paratoi drafft o lythyr at y Comisiynydd a rhanwyd copi i bob aelod. Gan nad oedd y dyddiad cau hyd 23ain Ebrill, 2018, gofynwyd i bob aelod gael golwg ar y drafft a'i newid/ychwanegu fel bo'r angen ac fod y sylwadau pellach hynny i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf.

### **101. CEISIADAU CYNLLUNIO**

**Cyflwynwyd** y cais a ganlyn i sylw'r Cyngor:

Cais C18/0137/32/LL – dymchwel ystafell haul presennol a chodi ystafell haul mwy yn ei le – Lodge, Bryncroes.

**Penderfynwyd** cefnogi'r cais.

### **102. MATERION IECHYD**

Nid oedd unrhyw fater i'w anfon ymlaen i'r Cyngor lechyd.

O dan y penawd yma **penderfynwyd** anfon y sylwadau a ganlyn at Reolwr Meddygfa Rhydbach, Botwnnog:

Y system apwyntiadau –

Rhaid ffonio am 8.30 y.b. i wneud apwyntiad ar gyfer y diwrnod hwnnw, hyn yn creu dipyn o drafferth i bobl sydd angen trefnu cludiant i'r Feddygfa, pobl sy'n gweithio angen gwybodaeth ymlaen llaw i'w Rheolwr a.y. Gofyn pam na ellir gwneud apwyntiad ymlaen llaw pan fydd y claf wedi cael gorchymyn gan y Meddyg ei fod angen ei gweld ef/hi, dyweder, mewn wythnos.

Fferyllfa – deallir fod y Fferyllfa ym Motwnnog yn cau am bedwar y prynhawn ar ddydd Gwener er fod posibl gweld y Meddyg i fyny hyd at chwech yr hwyr – y teimlad cyffredinol oedd fod hyn yn hollol anerbyniol.

Nyrs ar alwad yn y nos – gwneud ymholiad a oes Nyrs ar alwad yn ystod y nos yn y Feddygfa ac os felly a oes modd cysylltu gyda'r person hwnnw mewn argyfwng.

### **103. MATERION FFYRDD**

**Penderfynwyd** anfon y materion a ganlyn ymlaen at Beiriannydd Ardal Dwyfor:

Twll dwfn ger Fferm Ty Mawr Capel, Bryncroes.

Y draen ger arwydd 'Botwnnog' wedi cau ac angen ei chirio.

Ymholi pryd fydd yr arwydd 'Botwnnog' yn cael ei osod i fyny yn dilyn ei ail-baentio.

Dŵr a mwd yn sefyll naill ochr i Bont Saithbont, Botwnnog (cŵyn o Gyngor Aberdaron).

Dŵr yn sefyll ar draws y ffordd rhwng Pwllmaen a Phenygroeslon.

### **104. AWDURDOD I DALU**

**Penderfynwyd** awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

J.A. Pozzi	£60.00 + TAW
Y Clarc	£372.55
HMRC	£93.20
Y Clarc (costau postio)	£18.83

105. **BARBIO TIROEDD Y CYNGOR**

**Cyflwynwyd** adroddiad y Clarc na ymddangosodd hysbyseb yn gwahodd tendrau am farbio tiroedd y Cyngor yn rhifyn mis Chwefror o Llanw Llŷn. 'Roedd wedi gofyn am i'r hysbyseb gael ei roddi yn rhifyn mis Mawrth o'r Llanw ond nad oedd wedi derbyn cadarnhad gan y person oedd yn gyfrifol am hysbysebion er gofyn am hynny drwy e-bost a neges ar y teleffon. Gofynnodd y Clarc am arweiniad beth oedd i'w wneud petai'r hysbyseb ddim yn ymddangos yn y Llanw y mis hwn.

**Penderfynwyd** os na fyddai'r hysbyseb yn y Llanw ym mis Mawrth fod copi o'r cyfryw i'w roddi i fyny yn y Llythyrdy ym Motwnnog, Waterloo yn Sarn Mellteyrn, Canolfan Bryncroes a Wynnstay ym Mhenygroeslon.

106. **UN LLAIS CYMRU – PWYLLGOR ARDAL ARFON/DWYFOR**

**Nodwyd** fod cyfarfod o Bwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor o Un Llais Cymru i'w gynnal yn Siambr Cyngor Tref Pwllheli ar Nos Iau, 15fed Mawrth, 2018. Cynrychiolwyr y Cyngor yw'r Cynghorwyr David Brunelli ag Elin Hughes. Nodwyd ymhellach fod mynychu'r cyfarfod hwn i'w ddynodi'n ddyletswydd cydnabyddiedig i'r ddau aelod.